



Ysgol Pentreuchaf

159. Polisi Llythrennedd

Y diffiniad o lythrennedd o'r FFLIRh yw:

Llythrennedd yw'r defnydd o fedrau iaith mewn gweithgareddau dyddiol yn yr ysgol, yn y cartref, yn y gwaith, ac yn y gymuned. Mae'n cynnwys defnyddio medrau llythrennedd a gwybod sut i ddefnyddio Cymraeg a Saesneg. Mae llythrennedd yn disgrifio set o fedrau, gan gynnwys siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu, sy'n ein galluogi i wneud synnwyr o'r byd o'n cwmpas.

Nid ynghylch y fecaneg o allu dadgodio geiriau ar y dudalen neu ysgrifennu brawddeg ramadegol gywir yn unig y mae a wnelo llythrennedd, er bod y rhain yn fedrau hanfodol yn eu rhinwedd eu hunain. Mae'n ymwneud â'r sgiliau sydd eu hangen i ddeall iaith ysgrifenedig a llafar, i ddehongli'r hyn wedi ei ysgrifennu neu ei ddweud, a dod i gasgliadau o'r dystiolaeth sydd o'n cwmpas. Mae hefyd yn ymwneud â gallu i gyfathrebu yn ein tro - yn rhugl, yn argyhoeddiadol ac yn berswadiol.

Mae llythrennedd yn seiliedig ar ddarllen, ysgrifennu a datblygu iaith lafar ar draws yr holl feysydd pwnc. Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2013)

Sylfaen y polisi hwn yw'r Fframwaith Llythrennedd, gofynion Cwricwlwm Cymru 2008 (Cymraeg a Saesneg) a'r Fframwaith Sgiliau, gan eu defnyddio i atgyfnerthu yr arfer dda sy'n bodoli eisoes yn Ysgol Pentreuchaf. Dylid addysgu rhaglen astudio Cyfnod Allweddol 2 a'r Cyfnod Sylfaen mewn ffordd sy'n briodol a chydawns â'u datblygiad a'u galluedd.

Mae iaith yn ddylanwad unigryw yn natblygiad plentyn ac yn sylfaen pob dysgu ac addysgu. Braint disgyblion ysgol Pentreuchaf yw gallu manteisio ar gyfoeth dwy iaith a dau ddiwylliant ynghyd â'r cyfle i ddatblygu yn addysgol a chymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Seilir y polisi hwn ar bolisi iaith cyfredol yr Awdurdod, ac ar Gynllun Addysg Gymraeg yr Awdurdod, yn ogystal ag ar ofynion statudol a chanllawiau'r Fframwaith Llythrennedd a'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Mae meithrin agwedd gadarnhaol tuag at y ddwy iaith yn greiddiol i weithredu'r polisi hwn. Felly hefyd yr angen am godi ymwybyddiaeth disgyblion o'u treftadaeth ac o natur y Cwricwlwm Cymreig. Yn ogystal, dylid defnyddio medrau trawsieithu/sgiliau deuol, er mwyn datblygu'r ddwy iaith fel bod cryfder mewn un iaith yn atgyfnerthu'r llall. Dylid meithrin ymwybyddiaeth disgyblion o'r elfennau gwahaniaethol yn y ddwy iaith a'r elfennau hynny sy'n debyg ynddynt trwy fanteisio ar gyfleoedd i gyfeirio atynt pan fo'n briodol.

Amcan y polisi hwn yw gosod seiliau a fydd yn sicrhau hyfedredd mewn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg i gyfathrebu'n effeithiol; mae hyn yn cwmpasu medrau llafaredd, darllen ac ysgrifennu a chyd-ddibyniaeth y medrau hyn.

Llythrennedd ar draws y cwricwlwm

Mae Fframwaith Llythrennedd yn cynnig set o amcanion sy'n berthnasol ar draws y cwricwlwm ac yn cael eu hymgorffori yn yr holl bynciau. Bydd cysondeb mewn addysgu llythrennedd yn Ysgol Pentreuchaf yn galluogi dysgwyr i ddatblygu strategaethau a gallu i'w haddasu i wahanol gyd-destunau.

Llafaredd CA2	
Elfennau	Agweddau
Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau	Siarad
	Gwrando
	Cydweithio a thrafod
Darllen er gwybodaeth CA2	
Elfennau	Agweddau
Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth	Strategaethau darllen
Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd	Darllen a deall
	Ymateb a dadansoddi
Ysgrifennu er gwybodaeth CA2	
Elfennau	Agweddau
Trefnu syniadau a gwybodaeth	Ystyr <ul style="list-style-type: none"> diben cynulleidfa syniadau a gwybodaeth defnyddio manylion
	Ffurf <ul style="list-style-type: none"> Mathau o destun adroddiadau traethu perswadio trafod cyfarwyddiadau esbonio
	TGCh
Ysgrifennu'n gywir	Iaith
	Cyflwyniad Cystrawen Atalnodi Sillafu Treiglo

Llafaredd CS	
Elfennau	Agweddau
Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau	Siarad
	Gwrando
	Cydweithio a thrafod
Darllen er gwybodaeth CS	
Elfennau	Agweddau
Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth	Strategaethau darllen
Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd	Darllen a deall
	Ymateb a dadansoddi
Ysgrifennu er gwybodaeth CS	
Elfennau	Agweddau
Trefnu syniadau a gwybodaeth	Ystyr <ul style="list-style-type: none"> diben cynulleidfa syniadau a gwybodaeth defnyddio manylion
	Ffurf <ul style="list-style-type: none"> Mathau o destun nodweddion angenrheidiol dechrau dilyniant geiriau cysylltu nodweddion gweledol
	TGCh
Ysgrifennu'n gywir	Iaith
	Cyflwyniad Cystrawen Atalnodi Sillafu Treiglo

Mae darpariaeth Ysgol Pentreuchaf yn manteisio i'r eiddau ar ganiawiau y Fframwaith ar gyfer datblygu'r elfennau a'r agweddau hyn yn sgiliau llythrennedd pob dysgwr yn ogystal a bod yn ganolog i'r cynllunio a'r addysgu.

LLAFAREDD

Amcan Cyffredinol

Datblygu gallu disgyblion i wrando ac ymateb yn briodol ac yn effeithiol i ystod o symbyliadau, gan gynnwys y cyfryngau clywedol, clyweledol, gweledol ac aml-gyfrwng; siarad yn hyglyw, ynganu'n glir a goslefu'n briodol; dysgu cyfathrebu gyda chynulleidfaoedd gwahanol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd ac i wahanol bwrpasau; ac i ddatblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau.

Amcanion Penodol

SGILIAU: Datblygu gallu disgyblion i:

- wrando a gwyllo'n astud, gan ymateb yn ymestynnol i ystod eang o gyfathrebu;
- nodi a dilyn pwyntiau allweddol drwy holi a chyflwyno sylwadau, gan ddatblygu ymateb i eraill a dysgu trwy eu llafar;
- gyfathrebu'n glir ac yn hyderus, addasu eu llafar i'r gynulleidfa a'r diben, a defnyddio ystum, goslef a chywair yn briodol er mwyn ennyn diddordeb y gwrandawr;
- fod yn ymwybodol o gonfensiynau cymdeithasol sgwrsio a thrafod;
- ddefnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegol a geirfa yn fanwl gywir, gan gynnwys terminoleg sy'n cynnig modd iddynt drafod eu gwaith;
- yn y Gymraeg – defnyddio iaith goeth, gan osgoi defnyddio geiriau, ymadroddion a phatrymau Saesneg a Seisnig yn ddiangen;
- deall pryd mae angen defnyddio iaith safonol, ac adnabod a defnyddio iaith ffurfiol ac anffurfiol yn briodol; yn y Gymraeg – adnabod gwahaniaethau tafodieithol
- gwerthuso eu perfformiadau llafar a drama eu hunain ac eraill, gan estyn eu dealltwriaeth o sut i wella ac addasu geirfa, cystrawen, tôn, cyflymdra ac arddull fel yn briodol.

YSTOD: Datblygu sgiliau disgyblion drwy:

- weld a chlywed gwahanol bobl yn siarad, gan gynnwys pobl gyda gwahanol dafodieithoedd
- profi ac ymateb i symbyliadau a syniadau amrywiol: gweledol, clywedol, clyweledol, electronig, ac ysgrifenedig
- cyfathrebu i wahanol ddibenion, e.e. cyflwyno gwybodaeth, mynegi barn, esbonio syniadau, holi, cyfleu profiadau personol a dychmygus, darbwylllo, dadlau, cyflwyno, archwilio ac ystyried syniadau mewn llenyddiaeth a'r cyfryngau
- siarad a gwrandao yn unigol, mewn parau, mewn grwpiau ac fel aelodau o'r dosbarth
- defnyddio gwahanol dulliau i gyflwyno syniadau, gan gynnwys TGCh, e.e. dulliau drama, trafod a dadlau
- fynegi eu hunain yn hyderus, yn glir ac yn briodol i amrywiaeth o gynulleidfaoedd;
- defnyddio eu gwybodaeth o ieithoedd (Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd eraill) i ddatblygu eu hyder ieithyddol
- cymeryd rhan mewn gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar eiriau, eu tarddiad a'u hystyr, dewis ac effaith geiriau.

DARLLEN

Amcanion Cyffredinol

Datblygu gallu disgyblion i ddarllen ystod eang o destunau anllenyddol a llenyddol, gan gynnwys testunau'r cyfryngau, gweledol/symudol a TGCh. Dylid sicrhau cyfleoedd iddynt ddarllen i wahanol bwrpasau gan gynnwys defnyddio strategaethau darllen i ddod o hyd i wybodaeth, eu dewis a'u defnyddio, ac i ymateb i'r hyn a ddarllenwyd. Dylid annog disgyblion i fwynhau darllen er diddordeb a boddhad yn ogystal ag fel cyfrwng dysgu, ac i fyfrio a gwerthuso'r hyn a ddarllenant.

Amcanion Penodol

SGILIAU: Datblygu gallu disgyblion i:

- ddatblygu eu sgiliau darllen mecanyddol o fewn rhaglen gytbwys a chydlynol;
- ddatblygu eu gallu i ddarllen ar goedd gyda rhuglder, cywirdeb, dealltwriaeth a mwynhad;
- ddarllen mewn gwahanol ffyrdd i wahanol ddibenion, gan gynnwys:
 - cip ddarllen, llithr ddarllen, a darllen yn fanwl
 - rhagfynegi
 - defnyddio cyd-destun a gwybodaeth o iaith i ganfod yr hyn sydd ymhlyg mewn testun
 - gwahaniaethu rhwng ffaith a barn, gogwyddo a gwrthrychedd yn yr hyn a ddarllenant/wyliant;
- adnabod a deall nodweddion gwahanol genres o ran iaith, trefniadaeth, strwythur a chyflwyniad;
- ystyried yr hyn a ddarllenant/wyliant, gan ymateb ar lafar ac mewn ysgriflen i syniadau, geirfa, arddull, cyflwyniad a threfniadaeth delweddau ac iaith, a gallu dewis tystiolaeth i ategu eu barn;
- defnyddio amrywiaeth o strategaethau priodol i chwilio am wybodaeth, gan gynnwys TGCh;
- adfer a choladu gwybodaeth a syniadau o ystod o ffynonellau gan gynnwys deunyddiau mewn print, gweledol, clywedol, cyfryngol, TGCh a drama mewn perfformiad;
- defnyddio'r wybodaeth a gawsant o ddarllen er mwyn meithrin eu dealltwriaeth o strwythur, geirfa, gramadeg ac atalnodi, a sut mae'r rhain yn egluro ystyr;
- yn y Gymraeg darllen, ailddarllen a dwyn i gof yr hyn a ddarllenwyd ac ailadrodd y darnau y cafwyd blas arnynt; dysgu darnau ar y cof;
- ystyried sut mae testunau'n newid pan gant eu haddasu ar gyfer gwahanol gyfryngau a chynulleidfaoedd.

YSTOD: Datblygu sgiliau disgyblion drwy:

- eu hannog i fod yn ddarllenwyr brwd, annibynnol a myfyrgar;
- gynllunio cyfleoedd a phrofiadau iddynt ddarllen ar eu pennau eu hunain a gydag eraill;
- brofi ac ymateb i ystod eang a chynyddol heriol o destunau sy'n cynnwys:
 - gwybodaeth, testunau cyfeirio a thestunau anllenyddol eraill, gan gynnwys deunyddiau mewn print, deunyddiau cyfryngol, deunyddiau a delweddau symudol a deunyddiau yn seiliedig ar gyfrifiadur;
 - barddoniaeth, rhyddiaith a drama sy'n destunau traddodiadol a chyfoes;
 - testunau sydd â dimensiwn Cymreig a thestunau o ddiwylliannau eraill;
- ddarllen/gwyllo darnau a thestunau cyflawn:
 - sy'n gynyddol heriol ac sy'n ehangu persbectifau, yn estyn sgiliau meddwl, dealltwriaeth ddeallusol, moesol ac emosïynol
 - sydd gydag amrywiaeth o nodweddion ieithyddol, strwythur a threfn ac wedi eu hysgrifennu ar gyfer gwahanol ddibenion a chynulleidfaoedd
 - sy'n dangos ansawdd ac amrywiaeth wrth ddefnyddio iaith
 - sy'n adlewyrchu amrywiaeth cymdeithas yr unfed ganrif ar hugain
 - sy'n adlewyrchu'r deunydd darllen a ddewisir gan ddisgyblion unigol.

YSGRIFENNU

Amcanion Cyffredinol

Datblygu gallu disgyblion i ddefnyddio'r iaith ysgrifenedig i gyfathrebu'n effeithiol mewn amrediad o ffurfiau, gan addasu arddull a chynnwys i anghenion cynulleidfa a phwrpas, a'u hannog i wneud hynny'n greadigol, yn ddychmygus a chyda ymrwymiad gan drefnu eu syniadau a gwybodaeth ac i ysgrifennu'n gywir.

Amcanion Penodol

SGILIAU: Datblygu sgiliau disgyblion i:

- defnyddio nodweddion arferol testunau llenyddol ac anllenyddol yn eu hysgrifennu eu hunain, gan addasu eu harddull i gydweddu â'r gynulleidfa a'r diben;
- defnyddio ystod o batrymau brawddegol, a'u cysylltu'n gydlynol a datblygu'r gallu i ddefnyddio paragraffau'n effeithiol;
- defnyddio ystod o atalnodi i egluro'r ystyr gan gynnwys atalnod llawn, ebychnod a gofynnod, coma, collnod, pwyntiau bwled, dyfynodau, defnyddio ysgrifennu fel cyfrwng i ddatblygu, trefnu a chyfathrebu syniadau;
- dewis a defnyddio ystod eang o eirfa yn fwyfwy manwl gywir, gan ddatblygu iaith goeth a chywir;
- defnyddio ffurfiau safonol ieithyddol: enwau, rhagenwau, ansoddeiriau, adferfau, arddodiaid, cysyllteiriau ac amserau berfau;
- datblygu ac ymestyn eu hystod o strategaethau er mwyn sillafu yn gywir gan gynnwys: defnydd o eiriadur/'spell check'/ gwiriwr sillafu -Cysyll; strategaethau ymarferol fel mnemonics, sillafau, patrymau a rheolau; ymchwilio i reolau a phatrymau sillafu er mwyn deall a chofio ...;
- defnyddio'r eirfa a'r termau priodol i ystyried a gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill;
- drafftio, golygu a gwella eu gwaith, gan ddefnyddio TGCh fel y bo'n briodol i:
 - gynllunio, drafftio, adolygu, darllen proflenni, paratoi copi terfynol;
- cyflwyno eu gwaith yn briodol gan ysgrifennu'n rhwydd ac yn ddarllenadwy ac addasu i'r dasg; defnyddio nodweddion priodol patrwm a chyflwyniad, gan gynnwys TGCh.

YSTOD: Datblygu sgiliau disgyblion drwy:

- **ysgrifennu i bwrpasau amrywiol** - i gynhyrchu a chyfleu syniadau; i ddiwyro, dychmygu, disgrifio, creu effeithiau ac ennyn diddordeb; i adrodd, hysbysu, cyfarwyddo, esbonio, darbwylllo, ac i draethu; i ddadansoddi ac archwilio syniadau a barn mewn llenyddiaeth ac yn y cyfryngau;
- **ysgrifennu ar gyfer ystod o gynulleidfaedd go-iawn a/neu dychmygus;**
- **ysgrifennu mewn ystod o wahanol ffurfiau** e.e. stori, disgrifiad/portread, ymson, barddoniaeth, drama, nodiadau, llythyrau personol a ffurfiol, adroddiad papur newydd, adroddiadau ffurfiol, dyddiaduron, e byst, posteri a hysbysebion, ...
- **ysgrifennu mewn ymateb i ystod eang o symbyliadau gweledol, clywedol, clyweledol ac ysgrifenedig.**

Bydd yr ysgol yn cyflwyno Saesneg yn ffurfiol ar ddiwedd y CS unwaith y gosodir seiliau cadarn yn y Gymraeg yn y lle cyntaf.

- Cynllun darllen / ffoneg e.e. *Oxford Reading Tree* yn pontio CS / CA2 er mwyn sicrhau dilyniant yn natblygiad y disgyblion.
- Dechrau darllen Saesneg yn ystod blwyddyn 1 gyda grŵp o ddisgyblion sydd yn meistrolï darllen y Gymraeg yn dda.
- Cyflwyno llyfrau darllen Saesneg i ddisgyblion B12 ac eithrio grŵp ADY - parhau i ganolbwyntio ar y Gymraeg.

- Dechrau gwaith llafar, e.e. darllen storiâu a siarad Saesneg hefo pawb i hybu'r gwaith llafar ym mlwyddyn 2 (a grŵp MaT Bl 1)
- Darllenwr o'r gymuned yn dod i mewn - bloc o ddarllen Cymraeg a bloc o ddarllen Saesneg gyda bl 1 a 2.
- Dechrau ysgrifennu Saesneg gan ganolbwyntio ar y 'key-words' Saesneg yn nhymor yr Haf 2016 gyda phob un o ddisgyblion Bl2.
- Defnyddio prawf darllen Cenedlaethol Saesneg ym mlwyddyn 2 fel arf yn unig i safoni - disgyblion MAT yn unig.

Medrau Allweddol

(Datblygu meddwl, cyfathrebu, rhif a TGCh)

Ystyrir Cyfathrebu yn ran annatod o'r ddwy iaith – mae cyfleoedd i ymateb i'r fframwaith cyfathrebu yn yr adrannau sgiliau ac ystod uchod.

- Mae datblygu yn wrandawyr, siaradwyr, darllenwyr ac yn ysgrifenwyr yn rhoi cyfleoedd amrywiol i ddatblygu meddwl mewn cyd-destunau amrywiol. Dylai'r agweddau hyn fod yn ran annatod o ddatblygu sgiliau ac o brofiadau dysgu disgyblion yng nghyd-destun y ddwy iaith.

Datblygu TGCh:

- Defnyddia'r disgyblion eu medrau prosesu geiriau i wella ansawdd eu hysgrifennu drwy ddrafftio, golygu ac ailddrafftio gwaith.
- Cyfathreba'r disgyblion eu syniadau a'u gwybodaeth mewn amrywiaeth o ffurfiau, gan ystyried anghenion eu cynulleidfa.
- Defnyddia'r disgyblion offer sain a fideo yn fedrus i gofnodi a gwella eu gwaith llafar ac i ddatblygu eu gwybodaeth a'u defnydd o iaith, gan gynnwys ffurfiau iaith safonol lle bo'n briodol.
- Defnyddia'r disgyblion TGCh i adfer, cyfuno a chyflwyno gwybodaeth a geir o ystod o ffynonellau, gan gynnwys CD-Rom, tapiau sain a fideo wedi'u recordio ymlaen llaw.

Mynediad a Chyfleoedd cyfartal

Bydd staff Ysgol Pentreuchaf yn gwneud eu gorau i sicrhau y caiff pob disgybl gyfle cyfartal i gyrraedd ei botensial yn y maes hwn. Bydd amgylchedd yr ystafell ddosbarth, ac amgylchedd yr ysgol yn gyffredinol yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bob disgybl a'i hawl i gael mynediad llawn i'r rhaglen astudio er mwyn ymateb i'w anghenion a rhoi cyfle iddynt ddatblygu eu sgiliau ieithyddol.

Lle bo'n briodol, ceir darpariaeth wahaniaethol er mwyn datblygu ac ymestyn disgyblion i'w llawn botensial gan roi sylw i'w sgiliau sylfaenol/allweddol.

Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd: _____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: _____